Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Bro Dyfrdwy**

**Ysgol Isaf**
**Cynwyd**
**Corwen**
**LL21 0HR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Bro Dyfrdwy

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Bro Dyfrdwy |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12/02/2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

*“Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.”*

Mae'r plant yn fodlon eu byd, ac maent yn mwynhau eu hunain yn y gwasanaeth hwn, am eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn brysur yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff galluog yn gofalu am y plant yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae digonedd o ardaloedd chwarae a gweithgareddau wedi'u gosod allan i feithrin sgiliau. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant. Mae digonedd o deganau a gemau ar gael, ac mae'r rhain mewn cyflwr da ar y cyfan.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddedig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn â'r rhieni, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais a gallant ddylanwadu ar eu gofal. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Er enghraifft, roedd digon o amser i chwarae ar ôl cinio. Er bod llai o lyfrau ac ardaloedd chwarae o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, roedd dewis o bum ardal chwarae ar gael i'r plant. Mae'r staff yn gwrando ar y plant, er enghraifft roedd plentyn am symud y llithren fel y gallai ei defnyddio, ac ymatebodd y staff yn gyflym. Mae'r plant yn hyderus i siarad a mynegi eu hunain yn eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n darparu gofal o ansawdd da yn gyson. Maent yn gyfforddus ac yn hapus i fynd at y staff i ofyn am help a chael sgwrs. Mae'r plant yn cydweithredu'n fodlon â'r staff pan ofynnir iddynt fynd i olchi eu dwylo. Dywedodd rhiant wrthym fod ei blentyn wrth ei fodd yn mynychu'r gwasanaeth, a dywedodd rhiant arall fod ei blentyn wedi setlo'n dda. Mae'r plant yn fodlon eu byd, ac mae rhai ohonynt wedi meithrin cydberthnasau â'r plant eraill. Maent yn meithrin ymdeimlad o berthyn am fod ganddynt le personol i gadw eu cotiau a'u bagiau, a bod eu gwaith creadigol yn cael ei arddangos.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Roeddent yn chwerthin wrth redeg o gwmpas yn yr awyr agored ac yn chwarae'n ddychmygus yn y tywod. Roedd y plant wrth eu bodd yn tynnu llun o'u hoff anifail gyda chymorth gan y staff. Mae'r plant yn rhannu ac yn gwneud ffrindiau, sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleodd i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, ac yn rhoi eitemau i gadw ar ôl eu defnyddio cyn cael byrbryd. Mae'r plant yn golchi ac yn sychu eu dwylo'n annibynnol, ac mae rhai ohonynt yn gallu gwisgo eu cotiau heb gymorth.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac maent wedi adolygu'r gofal yn unol â'r canllawiau yn ymwneud â phandemig COVID-19. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn cael hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Maent yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Gwelsom restr o fyrbrydau iach, megis iogwrt a ffrwythau. Mae trefniadau glanhau cadarn ar waith. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr iach. Ymdrinnir â damweiniau yn foddhaol a chânt eu cofnodi, ac mae'r rhieni'n llofnodi'r cofnod i gydnabod eu bod wedi cael y wybodaeth. Dywedodd un rhiant wrthym fod y staff yn rhoi gwybod iddo am unrhyw ddigwyddiad pwysig. Caiff ymarferion tân eu cwblhau a gwelsom gofnodion manwl iawn, gan sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant, gan chwarae a sgwrsio â nhw'n barhaus. Maent yn dangos esiampl dda, drwy fod yn gwrtais ac yn ystyriol o bob plentyn unigol. Maent yn creu cyfnodau cymdeithasol ar gyfer y plant, gan gynnwys amseroedd bwyd, drwy eistedd gyda'r plant a sgwrsio â nhw. Mae'r staff yn canmol ac yn dathlu ymddygiad da, megis golchi dwylo neu adeiladu tŵr.  Mae hyn yn gwella hunan-barch ac ymdeimlad o gyflawniad y plant.

Mae'r staff yn ymwybodol o gryfderau, anghenion a hoff bethau'r plant, gan fod y gwasanaeth yn casglu'r wybodaeth hon gan y rhieni, ac maent yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant. Maent yn ymwybodol o alergeddau'r plant ac yn sicrhau eu bod yn osgoi bwydydd penodol. Mae'r staff yn cofnodi arsylwadau rheolaidd ar ddatblygiad y plant, ac yn defnyddio'r cofnodion hyn i gynllunio gweithgareddau i hybu eu datblygiad. Mae gwaith cynllunio tymor canolig ac wythnosol yn cynnwys meysydd dysgu a gweithgareddau a arweinir gan oedolion, gan sicrhau datblygiad cyffredinol y plant. Mae gweithgareddau diddorol yn cynnwys plannu hadau blodau haul, creu adar ar gyfer arddangosiad, a gwelsom luniau o'r plant yn pobi, yn chwarae yn y parc, yn sialcio ac yn mynd ar daith gerdded natur. Mae'r staff yn rhoi'r sylw sydd ei angen i bob plentyn ac yn ei helpu i fanteisio i'r eithaf ar bob gweithgaredd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr weddol dda, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau i rai o'r ardaloedd dan do ac wedi nodi meysydd eraill i'w gwella. Maent wedi nodi risgiau ac wedi cymryd camau i leihau neu ddileu'r risgiau hyn, a chaiff asesiadau risg ysgrifenedig manwl eu hadolygu'n rheolaidd. Er enghraifft, maent yn goruchwylio'r plant wrth iddynt fynd i'r toiled er mwyn sicrhau eu bod yn agor a chau'r drysau'n ddiogel.

Mae'r safle yn addas ac mae digon o le, yn yr ardal dan do yn arbennig. Mae cegin fawr er mwyn paratoi byrbrydau ac ardal i'r staff ei defnyddio ar gyfer cadw cofnodion. Defnyddir y cyntedd i storio cotiau a bagiau'r plant. Ceir llawer o deganau a gweithgareddau yn yr ardal awyr agored, megis chwarae tywod. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r teganau a'r cyfarpar awyr agored wedi treulio ychydig, ac mae angen gosod lloriau newydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi nodi'r amgylchedd awyr agored fel blaenoriaeth yn eu cynllun gwella. Defnyddir yr ardal yn effeithiol ac er bod yr ardal awyr agored yn llai o faint, mae'r staff yn ategu chwarae yn yr awyr agored drwy fynd ar deithiau i'r parc lleol.

Mae dodrefn addas ar gyfer y plant dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yr adnoddau, a oedd yn addas ar gyfer oedran y plant, mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff wedi datblygu ardaloedd ar gyfer chwarae a dysgu, gyda llawer o deganau a gemau y gall y plant gael gafael arnynt. Mae digonedd o gyfleusterau storio trefnus a chyflenwad o nwyddau traul, ac mae digon o gyfleusterau storio yn yr awyr agored. Mae hyn yn sicrhau bod gan y staff y cyfarpar i ddarparu gweithgareddau ysgogol i'r plant.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr, ac yn ystod yr arolygiad gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol. Gofynnwyd i'r rhieni am eu barn drwy ddefnyddio holiaduron. Caiff safbwyntiau'r rhieni a'r plant eu hystyried o ddifrif, a chaiff cryfderau a meysydd i'w gwella eu nodi yn yr Adolygiad Blynyddol o Ansawdd y Gofal. O ganlyniad, mae cynlluniau hirdymor ar gyfer gwella, sy'n cynnwys gwelliannau i'r ardal awyr agored. Dywedodd y staff wrthym y daethpwyd o hyd i gyllid i ariannu'r prosiect hwn, a fydd yn gwella cyfleoedd i'r plant.

Mae'r broses o recriwtio staff yn gadarn. Mae'r arfarniadau blynyddol yn ystyrlon ac yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o redeg y gwasanaeth, a gwnaethant ganmol y pwyllgor cefnogol a'r unigolyn cyfrifol. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad (sef y staff rheolaidd) yn gweithio'n dda fel tîm, gyda phob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn arwain y plant yn briodol. O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig sydd ag agwedd rwydd. Darperir hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol, a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi mynychu cyrsiau gofynnol a bod eu gwiriadau DBS yn gyfredol. Mae cyrsiau ychwanegol ar chwarae, anghenion ychwanegol, rheoli sgyrsiau anodd a rheoli gofal plant cynnar wedi cael eu cwblhau hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am sut i ddarparu amgylchedd dysgu cyfoethog i'r plant.

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant, gan fod modd i'r rhieni ddweud wrth y staff am yr hyn y mae eu plant wedi ei fwynhau yn arbennig. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r rhieni, sy'n adlewyrchu pa mor bwysig y mae'r bartneriaeth â'r rhieni yn eu barn nhw. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant. Gwnaethom siarad â dau riant, a ddywedodd wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth am y gofal a roddir i'w plentyn, gan gynnwys negeseuon testun a chylchlythyrau rheolaidd. Dywedodd y rhieni hyn fod y staff yn rhoi croeso cynnes iddynt a'u bod fel ffrindiau iddynt.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1.** Dylid ystyried yr ardal awyr agored yn flaenoriaeth ar gyfer cyfarpar a lloriau newydd.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/06/2021